9 Mawrth 2026

Annwyl

**ATISN 26729 – Estyn Llaw drwy Fwyta Allan**

Diolch am eich cais i Lywodraeth Cymru am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (2000) a ddaeth i law ar 02 Ionawr 2026 mewn perthynas â'r Cynllun Estyn Llaw drwy Fwyta Allan. Gwnaethoch chi ofyn am y canlynol:

- ***Unrhyw cyfeiriadau gan y cyn swyddog meddygol ar bapur neu ar lafar at effaith negyddol y cynllun bwyta allan***

**Ymateb**

Nid oes gan Lywodraeth Cymru yr wybodaeth y gofynnwyd amdani.

Cynllun gan Lywodraeth y DU oedd y Cynllun Estyn Llaw drwy Fwyta Allan. Mae Ymchwiliad Cyhoeddus Covid-19 y DU wedi casglu tystiolaeth mewn cysylltiad â'r cynllun ar draws nifer o fodiwlau, gan gynnwys Modiwl 2 a oedd yn ystyried y broses o wneud penderfyniadau a llywodraethiant gwleidyddol. Mae dogfennau a thrawsgrifiadau a gyhoeddwyd gan Ymchwiliad Covid-19 y DU, gan gynnwys datganiadau ysgrifenedig a thrawsgrifiadau o dystiolaeth lafar a roddwyd gan Syr Frank Atherton, yn ei rôl fel Prif Swyddog Meddygol Cymru, ar gael yma Archif Dogfennau - Ymchwiliad Covid-19 y DU. Mae'r adroddiad a gyhoeddwyd mewn perthynas â Modiwl 2 ar gael yma Adroddiad Modiwl 2, 2A, 2B, 2C - Gwneud penderfyniadau craidd a llywodraethu gwleidyddol - Ymchwiliad Covid-19 y DU ac mae'n cynnwys cyfeiriad at gyflwyno'r Cynllun Estyn Llaw drwy Fwyta Allan ym mhennod 6.

**Y Camau Nesaf**

Mae eich cais yn cynnwys gwybodaeth bersonol amdanoch – eich enw a'ch cyfeiriad er enghraifft. Llywodraeth Cymru fydd y prosesydd data ar gyfer yr wybodaeth hon ac, yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, bydd yn cael ei phrosesu er mwyn inni allu cyflawni ein tasg gyhoeddus a bodloni ein hymrwymiadau cyfreithiol o dan y Ddeddf i roi ateb ichi.

Yr unig ddefnydd a wnawn o'r wybodaeth bersonol hon fydd er mwyn ymdrin â'ch cais ac unrhyw faterion sy'n codi yn ei sgil. Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol ac unrhyw wybodaeth arall yn ymwneud â'ch cais am dair blynedd ar ôl y dyddiad y caiff eich cais ei gau'n derfynol. Wedyn byddwn yn cael gwared ar eich gwybodaeth bersonol mewn modd diogel.

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych hawl i'r canlynol:

- i gael gwybod pa ddata personol a gedwir amdanoch gan Lywodraeth Cymru a chael gafael arno
- i ofyn inni gywiro gwallau yn y data hwnnw
- i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data (o dan rai amgylchiadau)

- i ofyn am i'ch data gael ei ‘ddileu’ (o dan rai amgylchiadau)
- i gludadwyedd y data (o dan rai amgylchiadau)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac yn ei defnyddio, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, cysylltwch â:

Y Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
E-bost: SwyddogDiogeluData@llyw.cymru

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:
Yr Uned Hawl i Wybodaeth,
Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays,
Caerdydd,
CF10 3NQ

neu drwy e-bost at: RhyddidGwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gyflwyno cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Information Commissioner's Office,
Wycliffe House,
Water Lane,
Wilmslow,
Cheshire,
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes y bydd ein proses adolygu mewnol ni wedi'i chwblhau.

Yn gywir